Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mawrth, Awst 12fed, 2008 am 7.00 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Colin Jenkins, Cyng Julia Jones, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Roy Davies, Cyng Christopher Parish, Cyng Dawn Wallace, Cyng Richard Wallace.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau : Cyng Ros Bellamy, Cyng Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Fran Murphy,

Wnaeth y Cyng Richard Wallace a'r Cyng Dawn Wallace ddatgan diddordeb a gadael y siambr.

Cof 119 / Awst / 08 Materion Cynllunio i'w Penderfynu

E/19543 4 Tŷ Tair Ystafell Wely, 1 Tŷ 2 Ystafell Wely, parcio cysylltiedig â fordd i gael mynediad yn 11A, Adeiladau'r Banc
Sylw : Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r datblygiad oherwydd y byddai nifer yr eiddo y bwriedir eu rhoi yno yn arwain at nifer annerbyniol o gerbydau yn teithio i mewn ac allan o stryd gul un ffordd. Hefyd, lle mae yna garejys wedi'u dynodi, mae yna gais cynllunio wedi'i gymeradwyo ar gyfer tŷ arall yn Rhif 11. Teimlir bod y fynedfa yn rhy gul i Wasanaethau Brys a cherbydau nwyddau trwm.

Daeth y Cyng Richard Wallace a'r Cyng Dawn Wallace yn ôl i'r cyfarfod.

E/19571 Cais am dystysgrif Cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad arfaethedig : rhandiroedd, yn Home Farm Parc Dinefwr.
Sylw : Dim gwrthwynebiadau

E/19570 Estyniad i ystafell wydr wrth gefn tŷ yn 37, Heol Diana.
Sylw: Dim gwrthwynebiadau

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40pm